PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn: mis Gorffennaf 2000 hyd fis Gorffennaf 2001

Cyflwyniad

1. Un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad Cenedlaethol yw Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain. Mae ardal y Pwyllgor, fel y dynodwyd gan Reol Sefydlog 10.1, yn cynnwys Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen a Bro Morgannwg.

2. Yn ystod ail flwyddyn ei fodolaeth, rhoddwyd Cadeiryddiaeth y Pwyllgor i'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn unol â'r cytundeb rhwng y grwpiau gwleidyddol. I ddechrau, etholwyd Jenny Randerson yn Gadeirydd, ond daeth Peter Black yn ei lle yn dilyn creu'r Llywodraeth Bartneriaeth, a'r newidiadau a ddaeth yn sgil hynny i'r Cabinet.

3. Aelodau eraill y Pwyllgor yw: Lorraine Barrett, Rosemary Butler, Alun Cairns, Christine Chapman, Jane Davidson, David Davies, Geraint Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Davies, Sue Essex, Michael German, William Graham, Janice Gregory, John Griffiths, Brian Hancock, Jane Hutt, Pauline Jarman, Carwyn Jones, Peter Law, Huw Lewis, Dai Lloyd, David Melding, Rhodri Morgan, Jonathan Morgan, Lynne Neagle, Owen John Thomas a Phil Williams.

Cylch gwaith a dull o weithio

4. Rôl y pwyllgorau rhanbarth, fel y'i diffinnir gan Reol Sefydlog 10.2, yw cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny a gwaith y cyrff cyhoeddus yno.

5. Ac eithrio rhai gwelliannau, mae'r Pwyllgor wedi parhau â'r arferion gwaith a sefydlwyd yn ystod blwyddyn gyntaf ei fodolaeth. Yn enwedig, y mae wedi gweithio fel un pwyllgor sy'n gwasanaethu'r holl ranbarth, gan bennu "thema" ar gyfer pob un o'r cyfarfodydd. Y prif newid yw bod y Pwyllgor nawr yn rhoi mwy o amlygrwydd i gyfraniad y cyhoedd yn y cyfarfodydd. Yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd, yr eitem gyntaf ar yr agenda fydd sesiwn 'meicroffon agored', a gall aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau yn ystod gweddill y cyfarfod. Pryd bynnag y bydd yn briodol, bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn derbyn atebion ysgrifenedig i'w cwestiynau oddi wrth Weinidog perthnasol y Cynulliad.

6. Mae'r Pwyllgor wedi cwrdd ledled De-ddwyrain Cymru, ac erbyn hyn y mae wedi cyfarfod ym mhob un o ardaloedd y deg awdurdod lleol o leiaf unwaith. Yn unol â'r ymdrech i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd weld y Cynulliad ar waith, lle bynnag y mae'n bosibl, mae'r Pwyllgor yn cyfarfod mewn canolfannau hamdden neu leoliadau heblaw am ganolfannau dinesig. O gyfuno hynny â gwell trefniadau cyhoeddusrwydd, cafwyd cynnydd nodedig yn nifer y cyhoedd oedd yn mynychu'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn.

7. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ddatblygu ei gysylltiadau â phartneriaid allweddol yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat yn y rhanbarth. Enwir y prif gyrff a wahoddwyd i gyfarfod y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod.

Crynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd

8. Dyma grynodeb o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod 2000-2001:

Dyddiad	**Lleoliad**	**Testun**
7 Gorffennaf 2000	Pont-y-pl	Ystyriodd y Pwyllgor Raglen Amcan 2 a Rhaglen Drosiannol Dwyrain Cymru, gyda chyflwyniad gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru. Hefyd, trafodwyd y Strategaeth Weithredu ar gyfer Cymoedd y De.
20 Hydref	Glyn Ebwy	Ystyriodd y Pwyllgor *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*, gyda chyflwyniadau gan grwpiau cymuned, llywodraeth leol a sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag adfywio cymunedau.
1 Rhagfyr	Cas-gwent	Ystyriodd y Pwyllgor Raglenni Gwella Iechyd, gyda chyflwyniadau gan Awdurdodau Iechyd Bro Taf, Gwent a Iechyd Morgannwg, ynghyd â'u partneriaid.

2 Chwefror 2001	Caerdydd	Ystyriodd y Pwyllgor y polisi ym maes plant a phobl ifanc, gyda chyflwyniadau gan bobl ifanc, yn ogystal â'r sector gwirfoddol a llywodraeth leol.
30 Mawrth		Canslwyd y cyfarfod oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau.
18 Mai	Caerffili	Ystyriodd y Pwyllgor Adolygiad Gweithdrefnau'r Cynulliad, gyda chyflwyniad gan Kathryn Hollingsworth o Ysgol y Gyfraith yng Nghaerdydd. Hefyd, ystyriwyd materion cynllunio defnydd tir rhanbarthol, gyda chyflwyniad gan Grp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru.
13 Gorffennaf	Y Barri	Ystyriodd y Pwyllgor ddatblygiad strategaeth wastraff, gyda chyflwyniadau gan nifer o sefydliadau yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat.

Y flaenraglen waith

9. Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor, i'w gynnal ar 2 Tachwedd, yn ystyried strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer pobl hn. Bydd y Cadeirydd newydd, gan ymgynghori â'r Aelodau, yn datblygu'r rhaglen waith er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i ddarparu cyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r cymunedau lleol yn y rhanbarth.

10. Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'i farn ar rôl ac effeithiolrwydd y pwyllgorau rhanbarth i Adolygiad Gweithdrefnau'r Cynulliad. Mae'n bosibl y bydd yr Adolygiad yn arwain, dros y flwyddyn sydd i ddod, at newid y modd y mae'r Pwyllgor yn gweithredu, gyda golwg ar ddatblygu ei rôl hanfodol yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol ymhellach.

Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain **Gorffennaf 2001**